TELERAU AC AMODAU AELODAETH

1. CEISIADAU AELODAETH

1.1 Mae Stonewall Equality Limited ("Stonewall" o hyn ymlaen) yn croesawu ceisiadau i raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth gan aelodau newydd sy'n ceisio hyrwyddo amgylchedd gwaith cefnogol i bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

1.2 Drwy gyflwyno ffurflen gais a thalu'r Tâl Aelodaeth mae aelod newydd yn cytuno i'r Amodau hyn, ac fe gyfrir ei fod yn derbyn yr Amodau hyn ar bob Dyddiad Adnewyddu Tanysgrifiad, oni bai fod y tanysgrifiad wedi dod i ben yn unol gyda chymal 9.

1.3 Nid yw cyflwyno cais am Aelodaeth mewn categori arbennig yn gwarantu Aelodaeth yn y categori hwn.

1.4 Mae Stonewall yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais am Aelodaeth.

2. DEHONGLIAD

2.1 Yn yr Amodau canlynol, mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

"**Cytundeb**" yw'r cytundeb rhwng Stonewall a'r Aelod ar gyfer Aelodaeth i'r rhaglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth.

"**Anfoneb Tâl Aelodaeth Flynyddol**" yw'r anfoneb sy'n cael ei hanfon at Aelod o ran taliad Tâl Aelodaeth ar gyfer y flwyddyn ganlynol o Aelodaeth.

"**Amodau**" yw'r telerau ac amodau hyn, sy'n cael eu haddasu o bryd i'w gilydd yn unol gyda chymal 3.3.

"**Aelod**" yw person y mae ei gais am Aelodaeth i raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall wedi cael ei dderbyn.

"**Aelodaeth**" yw hawliau a rhwymedigaethau Aelod yn codi o'r Cytundeb hwn a'r Buddiannau Aelodaeth.

"**Buddiannau Aelodaeth**" yw'r buddiannau a roddir i Aelod yn sgil Aelodaeth.

"**Tâl Aelodaeth**" yw'r swm taladwy yn flynyddol gan yr Aelod, fel y nodir ar yr Anfoneb Tâl Aelodaeth Flynyddol a gyflwynir i chi.

"**Dyddiad Adnewyddu Tanysgrifiad**" – yr ystyr a nodir yng nghymal **Error! Reference source not found.**.

3. CORFFORIAD TELERAU

3.1 Mae'r Amodau hyn a'r Buddiannau Aelodaeth yn ffurfio cytundeb llawn rhwng Stonewall a'r Aelod.

3.2 Ni fydd unrhyw amrywiaeth i'r Amodau yn weithredol heb gytundeb ysgrifenedig oddi wrth Stonewall.

3.3 Mae Stonewall yn cadw'r hawl i addasu'r Amodau hyn fel bo angen o bryd i'w gilydd, ac fe fydd yn cyfathrebu gwelliannau o'r fath yn ysgrifenedig i'r Aelod neu yn cyhoeddi ar wefan Stonewall ar www.stonewall.org.uk. Bydd eich defnydd parhaus o'ch Buddiannau Aelodaeth yn cael ei gyfrif fel arwydd eich bod yn derbyn y gwelliannau hyn i'r Amodau.

4. TANYSGRIFIAD AELODAETH

4.1 Mae tanysgrifiad Aelodaeth yn rhedeg am gyfnod o flwyddyn. Mae'r Tâl Aelodaeth yn daladwy yn flynyddol, o flaen llaw, ac nid oes modd ei ad-dalu.

4.2 Mae Stonewall yn gweithredu system Aelodaeth dreigl a bilio blynyddol, gyda Dyddiad Adnewyddu Tanysgrifiad yr Aelod yn cael ei bennu gan y dyddiad ymuno, ac ar y dyddiad hwn yn flynyddol bydd tanysgrifiad Aelod yn adnewyddu'n awtomatig oni bai ei fod yn cael ei derfynu yn unol gyda chymal 9. Bydd Stonewall yn ymdrechu i anfon Anfonebau Tâl Aelodaeth Flynyddol olynol o leiaf dri deg (30) diwrnod cyn y Dyddiad Adnewyddu.

4.3 Mae pob Tâl Aelodaeth yn daladwy o fewn 30 diwrnod i ddyddiad yr Anfoneb Tâl Aelodaeth Flynyddol.

4.4 Adolygir y Tâl Aelodaeth yn flynyddol, a bydd Aelodau yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau i'r Tâl Aelodaeth yn ysgrifenedig drwy eu Hanfoneb Tâl Aelodaeth Flynyddol.

5. BUDDIANNAU AELODAETH

5.1 Mae Stonewall yn ymgymryd i ddarparu Buddiannau Aelodaeth penodol fel yr hysbysir o bryd i'w gilydd.

5.2 Mae Stonewall yn cadw'r hawl i amrywio, addasu neu ddiddymu Buddiannau Aelodaeth ar unrhyw adeg.

6. CYFRINACHEDD

Mae pob Aelod yn ymrwymo na fydd ar unrhyw adeg yn datgelu i unrhyw berson unrhyw wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth Stonewall, yn sgil Buddiannau Aelodaeth neu fel arall, a all fod yn gyfrinachol.

7. EIDDO DEALLUSOL

7.1 O bryd i'w gilydd gall Stonewall awdurdodi Aelod i ddefnyddio nod masnachol penodol drwy gytundeb trwyddedi gyda'r Aelod hwnnw ar delerau sy'n cael eu cynnig gan Stonewall.

7.2 Bydd cydymffurfiaeth gaeth yr Aelod gyda thelerau ac amodau unrhyw gytundeb trwyddedi sy'n codi yn unol â chymal 7.1 yn cael ei gyfrif fel amod o'r Cytundeb hwn.

7.3 Bydd diwedd neu derfynu'r Cytundeb hwn yn arwain yn awtomatig at ddiddymu a therfynu unrhyw drwydded a roddwyd i Aelod yn unol gyda chymal 7.1.

7.4 Yn ddibynnol ar gymal 7.1, ni fydd y Cytundeb hwn nac Aelodaeth yn awdurdodi Aelod i ddefnyddio unrhyw un o nodau masnach Stonewall.

8. RHWYMEDIGAETH

8.1 Ni fydd gan Stonewall unrhyw rwymedigaeth tuag at yr Aelod (sut bynnag y bydd yn codi, gan gynnwys unrhyw rwymedigaeth mewn camwedd) dan neu mewn cysylltiad â'r cytundeb hwn am unrhyw:

(a) golledion elw neu arbedion sy'n cael eu rhagweld;
(b) colledion refeniw;
(c) colled neu niwed i enw da neu ewyllys da;
(d) colli data;
(e) colli cyfleoedd;
(f) colli cytundeb;
(g) colledion neu rwymedigaethau dan neu mewn cysylltiad gydag unrhyw gytundeb arall; ym mhob achos, boed yn golled neu niwed uniongyrchol, anuniongyrchol, arbennig a/neu ôl-ddilynol; neu
(h) ar gyfer unrhyw golled neu niwed arall anuniongyrchol, arbennig a/neu ôl-ddilynol.

8.2 Ni fydd cyfanswm rhwymedigaeth Stonewall ar gyfer hawliadau neu rwymedigaeth torri cytundeb (yn cynnwys torri cytundeb yn fwriadol), camwedd (yn cynnwys esgeulustod a/neu dorri dyletswydd statudol), camddehongli, a/neu sy'n codi mewn ffordd arall mewn cysylltiad gyda'r Cytundeb hwn yn ystod pob blwyddyn o'r Cytundeb hwn, yn fwy na'r swm o Dâl Aelodaeth a dalwyd i Stonewall yn ystod y flwyddyn honno.

8.3 Ac eithrio fel y nodwyd yn yr Amodau hyn, bydd pob gwarant, amod a thelerau eraill dan gyfraith statudol neu wlad, i'r graddau llawnaf sy'n cael ei ganiatáu gan y gyfraith, wedi'u heithrio o'r Cytundeb hwn.

8.4 Bydd cymal 8 yn goroesi terfyniad y Cytundeb.

9. TERFYNIAD AELODAETH

9.1 Gall Aelod derfynu'r Cytundeb hwn nid llai na 30 diwrnod cyn y Dyddiad Adnewyddu Tanysgrifiad drwy roi rhybudd ysgrifenedig i Stonewall.

9.2 Mae Stonewall yn cadw'r hawl i derfynu'r Cytundeb hwn ar unwaith os:

(a) yw'r Aelod yn torri'r Cytundeb hwn ac (os oes modd adfer y sefyllfa) yn methu adfer y sefyllfa o fewn 30 diwrnod o dderbyn rhybudd gan Stonewall yn eu hysbysu ac yn gofyn am adferiad; neu
(b) yw'r Aelod yn methu talu'r Tâl Aelodaeth o fewn 30 diwrnod i dderbyn yr Anfoneb Tâl Aelodaeth Flynyddol.

9.3 Os fydd Stonewall yn gweithredu ei hawl i derfynu'r Cytundeb yn unol gyda chymal 9.2, bydd yn rhoi rhybudd i'r Aelod gan nodi'r rhesymau dros derfynu, a dyddiad y terfynu.

9.4 Bydd Terfynu'r Cytundeb hwn yn arwain yn awtomatig at derfynu Buddiannau Aelodaeth yr Aelod.

9.5 Ar derfynu Aelodaeth, rhaid i'r Aelod dynnu bob cyfeiriad at Stonewall oddi ar ei ddeunydd hyrwyddo, deunyddiau recriwtio a gwefan o fewn cyfnod rhesymol.

9.6 Ar derfynu Aelodaeth, bydd manylion, yn cynnwys enw, cyfeiriad post, e-bost a rhif ffôn, yn cael eu cadw ar fas data Stonewall, gan alluogi Aelod i adnewyddu ei Aelodaeth yn rhwydd. Gall cyn-Aelod ofyn yn benodol am dynnu manylion oddi yno drwy anfon e-bost at workplace@stonewall.org.uk.

10. CYFFREDINOL

10.1 Ni fydd Aelod, heb ganiatâd ysgrifenedig Stonewall o flaen llaw, yn pennu, trosglwyddo na delio mewn unrhyw ffordd arall gyda'i Aelodaeth.

10.2 Bydd unrhyw rybudd neu unrhyw ohebiaeth arall sydd angen ei drosglwyddo dan neu mewn cysylltiad gyda'r Cytundeb, yn ysgrifenedig, a bydd yn cael ei drosglwyddo i'r parti arall yn bersonol, neu ei anfon drwy'r post gyda stamp dosbarth cyntaf, post cofrestredig neu negesydd masnachol yn ei swyddfa gofrestredig (os yn gwmni) neu (dan unrhyw amodau eraill) i'r prif fan busnes, neu drwy ffacs at brif rif ffacs y parti arall.

10.3 Nid oes bwriad i unrhyw beth yn y Cytundeb hwn fod yn, na chael ei gyfrif fel, partneriaeth neu gyd-fenter o unrhyw fath rhwng y partïon, na chyfrif fel asiant parti arall ar gyfer unrhyw bwrpas. Ni fydd gan unrhyw barti awdurdod i weithredu fel asiant ar gyfer, na rhwymo, y parti arall mewn unrhyw ffordd.

10.4 Ni fydd gan berson sy'n rhan o'r Cytundeb hwn unrhyw hawliau oddi tano nac yn gysylltiedig ag ef.

10.5 Mae'r Cytundeb hwn, ac unrhyw anghydfod neu honiad sy'n codi allan ohono neu mewn cysylltiad gyda'r testun neu ffurfio, yn cael ei reoli gan, a'i ddehongli yn unol gyda, chyfraith Lloegr, ac mae'r partïon yn ddarostyngedig i awdurdodaeth benodol llysoedd Cymru a Lloegr.